



## **Ceisiwch wneud 1 allan o 5!**

Cynhelir Wythnos Symudedd Ewropeaidd rhwng  
Medi 16 a 22 eleni.

Mae Cyngor Caerdydd yn annog ei weithwyr a  
myfyrwyr a gweithwyr sefydliadau RhannuCeirCaerdydd  
i ddynodi un diwrnod di-gar personol yn ystod yr  
wythnos honno.

Helpwch ni i wella ansawdd bywyd i bawb am  
un diwrnod yr wythnos a lleihau tagfeydd yn  
ein Dinas brydferth.

Darganfyddwch sut allwch chi wneud y dewis cywir  
drwy ddod o hyd i'r wybodaeth gywir i'ch helpu chi....



Ceir gwybodaeth am ddewisiadau eraill ac eich opsiynau ar gyfer cyfrannu at leihau tagfeydd a llygredd drwy ddewis cerdded, seiclo, teithio ar fws neu drên a thrwy rannu car isod:



Traveline Cymru – yn cynnig siop-un-stop ar gyfer cynllunio teithiau a gwybodaeth am amserlenni ar gyfer bysus, coetsys a threnau, ewch i: [www.traveline-cymru.org.uk](http://www.traveline-cymru.org.uk), neu cysylltwch â 0871 200 22 33 am wybodaeth.

Rhannu Ceir – Mae Cyngor Caerdydd yn darparu cronfa ddata rhannu taith ar gyfer sefydliadau aelod. Mae hyn yn galluogi unigolion i ddod o hyd i eraill i deithio i'r gwaith gyda hwy yn hytrach nag ar wahân, boed hynny yn y car, drwy gerdded, seiclo, ar y bws, ar y trên neu mewn dacsî. Am ragor o wybodaeth ewch i:

[www.RhannuCeirCaerdydd.com](http://www.RhannuCeirCaerdydd.com), Neu e-bostiwch: [carshareenquiries@cardiff.gov.uk](mailto:carshareenquiries@cardiff.gov.uk).

Mae Sewta hefyd yn cynnig cronfa ddata rhannu ceir at ddefnydd cyhoeddus sydd ar gael ar: [www.sewtacarshare.com](http://www.sewtacarshare.com).

Cynlluniau Teithiau – Mae Cyngor Caerdydd yn annog sefydliadau i gynhyrchu Cynlluniau Teithio - pecyn o fesurau i ehangu opsiynau teithio i staff ac i hyrwyddo dewisiadau mwy gwyrdd a glân. Am ragor o wybodaeth ewch i:

[www.caerdydd.gov.uk/cynlluniauteithio](http://www.caerdydd.gov.uk/cynlluniauteithio), neu e-bostiwch: [travelplans@cardiff.gov.uk](mailto:travelplans@cardiff.gov.uk).

Cynlluniau Teithio Personol – Mae Modus yn wasanaeth cynllunio teithiau am ddim a ddarperir gan Traveline Cymru i sefydliadau. Gan weithio ar wybodaeth cod post, gall Modus ddarparu cynllun teithio personol i unigolyn gan ddweud wrthynt sut i deithio o'u drws ffrynt i ben eu taith ac yn ôl gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Am ragor o wybodaeth e-bostiwch: [modus@pticymru.com](mailto:modus@pticymru.com), neu ffoniwch: 029 2034 4593.

Seiclo – am wybodaeth ar seiclo yng Nghaerdydd, ewch i: [www.caerdydd.gov.uk/seiclo](http://www.caerdydd.gov.uk/seiclo), neu cysylltwch â Swyddog Seiclo'r Cyngor ar 029 2087 3351

Os hoffech dderbyn copi o'r ddogfen hon yn Gymraeg, e-bostiwch: [info@keepingcardiffmoving.co.uk](mailto:info@keepingcardiffmoving.co.uk), neu cysylltwch â Cadw Caerdydd yn Symud trwy Cysylltu â Chaerdydd.

(029) 20  
872087



(029) 20  
872088